1. Bydd Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 yn rhesymoli ac yn gwella gwasanaethau ombwdsmon yng Nghymru.
2. Mae llawer o ddarpariaethau sy'n berthnasol i Gymru yn unig wedi'u cynnwys yn y Ddeddf Plant 2004. Mae hyn yn cynnwys trosglwyddo CAFCASS yng Nghymru i'r Cynulliad.
3. Lanswyd Mesur Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) ar gyfer ymgynghori cyhoeddus, ac mae'r Pwyllgor Materion Cymreig wedi dechrau ei ystyried. Mae'r Mesur hwn yn darparu ar gyfer swydd swyddogaethau Comisiynydd Pobl Hŷn yng Nghymru.
4. Mae'r Mesur Addysg yn cynnwys cymalau sy'n berthnasol i Gymru yn unig ac sy'n rhoi grymoedd i'r Cynulliad ddatblygu ei ddull o drin meysydd fel arolygu ysgolion, gan gynnwys sefydlu panel i gynghori ar faterion sy'n ymwneud ag Estyn.
5. Cynhaliodd Swyddfa Cymru a'r Cynulliad ymgynghoriad eang ei gwmpas ar y Mesur Trafnidiaeth (Cymru) drafft, cyn ei gyflwyno i'r Senedd.
6. Bydd Deddf Rheilffyrdd 2005 yn gwneud y Cynulliad yn gydlofnodwr ar fasnachfaint Cymru a'r Gororau, ac yn rhoi grymoedd iddo restru ac ariannu gwasanaethau a gosod prisiau.
7. Bu swyddogion yn gweithio â'r Adran Iechyd i lansio Papur Gwyn y Llywodraeth ar Iechyd, gan sicrhau ei fod yn adlewyrchu strategaethau iechyd a strategaethau cymdeithasol yng Nghymru.
8. Mae yna gymalau sy'n berthnasol i Gymru yn unig ym Mesur y Loteri Genedlaethol, sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd, ac mae'r rhain yn rhoi grymoedd i'r Cynulliad gyfarwyddo Cronfa'r Loteri Fawr.
9. Mae Gweinidogion Swyddfa Cymru yn rhan o nifer o dimau Mesurau Gweinidogaethol sy'n gyfrifol am basio amrywiol Fesurau trwy'r Senedd.
10. Mae'r tabl isod yn cynnwys Deddfau a Mesurau yn sesiynau 2003-04 a 2004-05 sy'n cynnwys cymalau sy'n benodol i Gymru.

Deddfau a Mesurau Cymru a Lloegr gyda darpariaethau neu oblygiadau penodol ar gyfer Cymru yn Sesiwn 2003-04

Yn Berthnasol i Gymru yn Unig	Deilliant	Nodiadau
Deddf Archwiliad Cyhoeddus (Cymru) 2004	Derbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 16 Medi 2004	Mae'r Ddeddf hon yn creu un corff sy'n gyfrifol am archwilio cyrff cyhoeddus yng Nghymru, drwy ymgorffori swyddogaethau'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru yn swyddogaethau Archwiliwr Cyffredinol Cymru.
Cymru a Lloegr		
Deddf Addysg Uwch 2004	Derbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 1 Gorffennaf 2004	Mae'r Ddeddf hon yn rhoi'r rhan fwyaf o'r grymoedd gweithredol sy'n ymwneud ag addysg uwch i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
Deddf Plant 2004	Derbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 15 Tachwedd 2004	Mae'r Ddeddf hon yn cyflawni gwelliannau i wasanaethau plant ac mae hefyd yn cynnwys trosglwyddo cyfrifoldeb am CAF/CASS i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004	Derbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 22 Gorffennaf 2004	Mae'r Ddeddf yn trosglwyddo cyfrifoldeb am Wasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru i'r Cynulliad Cenedlaethol.
Deddf Tai 2004	Derbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 18 Tachwedd 2004	Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer creu swydd newydd Ombwdsmon Tai Cyhoeddus Cymru i ymchwilio i gwynion yn erbyn landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru.
Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004	Derbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 18 Tachwedd 2004	Bydd y Ddeddf yn ei gwneud yn bosibl rhoi grymoedd priodol i'r Cynulliad, gan ei alluogi i gymryd camau yn ystod argyfwng a fydd yn briodol wrth drin yr argyfwng yng Nghymru.
Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004	Derbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 13 Mai 2004	Mae'r Ddeddf yn symleiddio'r system gynllunio ac yn diwygio'r system cynllun datblygu yng Nghymru.
Mesur Cludiant i'r Ysgol	Cyhoeddwyd ar y cyd â DfES i'w archwilio cyn iddo ddod yn ddeddf gwlad.	Fe fydd y Mesur yn caniatáu i awdurdodau lleol ddarparu cludiant arloesol a diogel i'r ysgol. Fe fydd yn rhoi grymoedd i'r Cynulliad lunio rhai rheoliadau a gorchmynion sy'n berthnasol i Gymru.

Deddfau a Mesurau Cymru a Lloegr gyda darpariaethau neu oblygiadau penodol ar gyfer Cymru yn Sesiwn 2004-05

Yn Berthnasol i Gymru yn Unig	Deilliant	Nodiadau
Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005	Derbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 7 Ebrill 2005	Mae'r Ddeddf yn diwygio ac yn symleiddio'r gwasanaeth ombwdsmon yng Nghymru.
Mesur Trafnidiaeth (Cymru)	Ailgyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 19 Mai 2005	Bydd y Mesur yn rhoi grymoedd newydd i'r Cynulliad dros awdurdodau lleol o ran cynlluniau trafnidiaeth lleol a sefydlu Cyd-Awdurdodau Trafnidiaeth.
Cymru a Lloegr		
Deddf Cymdogaethau ac Amgylchedd Glân 2005	Derbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 7 Ebrill 2005	Mae'r Ddeddf yn rhoi mwy o rymoedd i gynghorau lleol fynd i'r afael â phroblemau fel posteri wedi'u gosod heb ganiatâd, llygredd swm a cherbydau gadawedig.
Deddf Addysg 2005	Derbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 7 Ebrill 2005	Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau sy'n berthnasol i Gymru yn unig, parthed arolygu gwasanaethau gyrfaoedd, sefydlu bwrdd ymgynghorol a chynghori ar benodi Prif Arolygydd i Gymru.
Deddf Ymchwiliadau 2005	Derbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 7 Ebrill 2005	Mae'r Ddeddf yn moderneiddio'r system ar gyfer cynnal ymchwiliadau cyhoeddus. Fe fydd yn rhoi'r grym i'r Cynulliad sefydlu ymchwiliadau i faterion datganoledig a chynnal ymchwiliadau ar y cyd.
Deddf Rheilffyrdd 2005	Derbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 7 Ebrill 2005	Mae'r Ddeddf yn rhoi mwy o rymoedd i'r Cynulliad dros wasanaethau trên yng Nghymru.
Mesur Iles Anifeiliaid	Cynigiwyd yn y sesiwn diwethaf a bydd yn cael ei gyflwyno yn Sesiwn 2005-06	Bydd y Mesur yn cynyddu'r cosbau am gam-drin anifeiliaid ac yn gwella safonau. Bydd y Cynulliad yn ymarfer y grymoedd llunio rheoliadau a gorchmynion a gynhwysir yn y Mesur yng Nghymru.
Mesur Elusennau	Y cyfnod Seneddol diweddaraf a gyrhaeddwyd: Cyfnodau Pwyllgor Chwefror a Mawrth 2005 Ailgyflwynwyd yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 18 Mai 2005	Bydd y Mesur yn moderneiddio'r gyfraith sy'n llywodraethu'r sector gwirfoddol. Mae'n cynnwys darpariaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol benodi Comisiynydd Elusennau ar gyfer Cymru.
Mesur Cydraddoldeb	Y cyfnod Seneddol diweddaraf a gyrhaeddwyd: Ail ddarlleniad 05/04/05. Ailgyflwynwyd yn sesiwn 2005-06	Mae'r Mesur yn darparu ar gyfer sefydlu Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol newydd. Bydd ymgynghoriad â'r Cynulliad ynghylch penodi Comisiynydd i gynrychioli buddiannau Cymru.

Cymru a Lloegr	Deiliant	
Mesur yr Undeb Ewropeaidd	Y cyfnod Seneddol diweddaraf a gyrhaeddwyd: Ail ddarlleniad ar 09 Chwefror 2005. Ailgyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 24 Mai 2005	Mae'r Mesur yn cynnwys darpariaeth ar gyfer gofyn cwestiwn y refferendwm ynghŷn â chyfansoddiad yr UE yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg mewn gorsafoedd pleidleisio yng Nghymru.
Mesur Cardiau Adnabod	Y cyfnod Seneddol diweddaraf a gyrhaeddwyd: Pasiwyd trwy Tŷ'r Cyffredin, ail ddarlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 21 Mawrth 2005. Ailgyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 24 Mai 2005	Bydd y Mesur yn caniatáu i'r Cynulliad benderfynu a ddylai cyflwyno'r cerdyn fod yn ofynnol wrth ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus datganoledig.
Mesur Diogelwch ar y Ffyrdd	Y cyfnod Seneddol diweddaraf a gyrhaeddwyd: Pasiwyd trwy Tŷ'r Cyffredin, darlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 9 Mawrth 2005. Ailgyflwynwyd yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 24 Mai 2005	Fe fydd y Mesur yn estyn grymoedd y Cynulliad i ariannu prosiectau diogelwch ar y ffyrdd.
Mesur Cludiant i'r Ysgol	Cyhoeddwyd ar y cyd â DfES i'w archwilio cyn iddo ddod yn ddeddf gwlad.	Fe fydd y Mesur yn caniatáu i awdurdodau lleol ddarparu cludiant arloesol a diogel i'r ysgol. Fe fydd yn rhoi grymoedd i'r Cynulliad lunio rhai rheoliadau a gorchmynion sy'n berthnasol i Gymru.

Amcan 3:

Gweithio gydag adrannau eraill y Llywodraeth i hybu buddiannau Cymru mewn materion sy'n parhau yn gyfrifoldeb y Llywodraeth.

1. Bu Gweinidogion yn cyfrannu at amrywiaeth o Bwyllgorau'r Cabinet.
2. Bu swyddogion yn cyfrannu at hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddatganoli i weision sifil.
3. Bu Gweinidogion yn cyfrannu at ddatblygu polisi ac yn sicrhau bod buddiannau Cymru'n cael eu hadlewyrchu ym Mesur Tai, Mesur Gwasanaethau Tân ac Achub a Mesur Addysg y Llywodraeth.
4. Cyfarfu Is-Grŵp Cymru y Grŵp Monitro Hawliadau Iechyd Diwydiannau Glo bum gwaith yn ystod y flwyddyn, ac mae wedi parhau i wneud cynnydd dan gadeiryddiaeth yr Is-Ysgrifennydd Seneddol, gydag oddeutu £70 miliwn yn fwy wedi'i dalu i gyn lowyr nag a dalwyd flwyddyn yn ôl, gan ddod â'r cyfanswm i £470 miliwn.
5. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn parhau i gadeirio Pwyllgor Paratodau Ewro Cymru sy'n goruchwyllo paratodau Cymru ar gyfer ymuno â'r Undeb Economaidd ac Ariannol yn y dyfodol o bosibl. Cyfarfu'r Pwyllgor ddwywaith yn ystod y flwyddyn. Bydd gweinidogion yn adrodd i Bwyllgor Sefydlog y Canghellor ar baratodau ewro.
6. Bu Gweinidogion yn ymgymryd ag ymweliadau a chyfarfodydd swyddogol â phartneriaid Ewropeaidd a rhyngwladol, gan helpu i hybu Cymru dramor. Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth yr Ysgrifennydd Gwladol ymweld â Tsieina, Awstralia a Seland Newydd. Fe groesawodd Gweinidogion weithredwyr busnes o Japan a Gwlad Belg dros ginio. Gwnaeth Gweinidogion hefyd dderbyn cynrychiolwyr o Lysgenhadaeth America, a chyfarfod â Llysgenhadon newydd o'r Eidal a Japan.
7. Mae'r Llywodraeth wedi penderfynu mai Caerdydd ddylai fod yn ymgeisydd y DU am bencadlys Awdurdod Goruchwyllo Galileo. Prosiect proffil uchel yw hwn sy'n cael ei ddatblygu ar y cyd gan yr Undeb Ewropeaidd ac Asiantaeth Gofod Ewrop, a bydd yn darparu system fasnachol mordwyo radio lloeren Ewropeaidd. Bu'r Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol a swyddogion yn gweithio'n agos â'i Adran Drafnidiaeth a'r Cynulliad i gefnogi'r cynnig hwn.
8. Bu'r Gweithgor Teiran yn parhau i frwr ymlaen â'i waith yn ymchwilio i'r posibilrwydd o drosglwyddo swyddogaethau caniatadau ynni i'r Cynulliad. Yn ystod yr haf, cwblhawyd ymarfer o bwys i sicrhau barn rhanddeiliaid.
9. Cyfrannodd Swyddfa Cymru at yr adolygiad o Siarter Frenhinol y BBC ac adolygiad Ofcom o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus.
10. Fis Mai 2004, fe gyflwynodd yr Ysgrifennydd Gwladol Wobrau Busnes blynyddol y Western Mail i gwmnïau llwyddiannus yng Nghymru, a mis Hydref fe draddododd araiith gyweirnod, sef "Mynediad a Thu Hwnt" i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol Anabledd Cymru.
11. Bydd swyddogion Swyddfa Cymru yn cyfarfod yn rheolaidd â'u cymheiriaid mewn adrannau eraill er mwyn sicrhau dull cyson o weithredu wrth gynnal etholiadau.

Amcan 4:

Gweithio gydag adrannau eraill y Llywodraeth a'r Cynulliad i hybu cyfathrebu effeithiol a chydlynu polisiâu mewn meysydd sy'n rhychwantu'r ffin rhwng swyddogaethau a drosglwyddwyd a'r rhai na throsglwyddwyd.

1. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cynnal cyfarfodydd rheolaidd â chydweithwyr yn y Cabinet ac â Gweinidogion Llywodraeth Cynulliad Cymru, a bydd yn ymgynghori â hwy i hyrwyddo buddiannau Cymru.
2. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd â Phrif Weinidog y Cynulliad i drafod ac i gytuno ar bolisi a busnes Cymreig.
3. Bu Gweinidogion a swyddogion yn cydweithio â'r Cynulliad ar y Pwyllgor Cyfyngau Sifil a gwaith cysylltiedig.
4. Bu Gweinidogion yn ymwneud â chwe chyfarfod y Cydbwyllgor Gweinidogion ar Ewrop eleni. Bydd yr Is-Ysgrifennydd Seneddol yn cael cyfarfodydd rheolaidd â chydweithwyr Gweinidogaethol a bu wrthi'n hybu buddiannau pobl hŷn yng Nghymru fel aelod o bwyllgor y Cabinet ar Bobl Hŷn a Thasglu'r Cyn-Filwyr, sef fforwm a sefydlwyd gan y Weinyddiaeth Amddiffyn ac y mae'r Weinyddiaeth yn ei gadeirio.
5. Bu swyddogion Swyddfa Cymru mewn nifer o gyfarfodydd yn adrannau Whitehall i drafod materion sy'n ymwneud â'r rhwydwaith swyddfeydd post gwledig, Rhwydwaith Polisi Ynni Cynaliadwy, a dyfodol DARA Sain Tathan. Bu Swyddfa Cymru hefyd yn gweithio'n agos â Llywodraeth y Cynulliad i ddenu swyddi'r gwasanaeth sifil sy'n cael eu hadleoli y tu allan i Lundain. Mae hyn wedi arwain at gyhoeddiad y bydd hyd at 1,100 o swyddi'n dod i Gasnewydd yn sgîl penderfyniadau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a'r Gwasanaeth Carchardai fel ei gilydd i adleoli swyddogaethau i Gymru.

Amcan 5: Cadw dan adolygiad, ar y cyd â'r Trysorlys a'r Cynulliad Cenedlaethol, y modd y mae'r polisi cyllido ar gyfer y gweinyddiaethau datganoledig yn gweithredu.

1. Neilltuwyd dyraniadau nawdd i'r Cynulliad yn unol â'r Datganiad Polisi Ariannu, a ddiwygiwyd, fel rhan o Adolygiad Gwariant 2004 (AG 2004).
2. Parhaodd AG 2004 ymrwymiad y Llywodraeth i ddarparu nawdd y tu allan i system Barnett ar gyfer rhaglenni nawdd strwythurol Cymru. Bydd y cynlluniau gwario newydd ar gyfer Cymru yn darparu ar gyfer twf mewn gwariant yng Nghymru, ar gyfradd flynyddol wirioneddol o fwy na 4 y cant ar gyfartaledd dros y tair blynedd nesaf.
3. Bu Gweinidogion a swyddogion Swyddfa Cymru wrthi'n trafod telerau AG 2004.

2.5 Cynnydd yn ôl y targedau

Ni fydd Swyddfa Cymru yn darparu gwasanaethau yn uniongyrchol i'r cyhoedd, ond fe fydd yn trin gohebiaeth, ac ymholiadau dros y ffôn ac oddi wrth y wasg ynghylch gwaith yr adran.

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau effeithlon o'r radd flaenaf. Rydym felly wedi pennu pum targed â'r nod o sicrhau ein bod yn gweithredu yn effeithlon ac yn safonol yn ein hymwneud â'r cyhoedd.

Targed	Dangosydd	Perfformiad Ebrill 2004 – Mawrth 2005
Byddwn yn ateb gohebiaeth cyn pen 15 diwrnod gwaith ar ôl ei derbyn; neu fe fyddwn yn anfon ateb yn y cyfamser yn egluro'r rhesymau dros unrhyw oedi, ac yn nodi pryd y gellir disgwyl ateb llawn.	Canran yr ohebiaeth a gafodd ei hateb cyn pen 15 diwrnod gwaith.	94%
Byddwn yn darparu gwybodaeth gyhoeddedig ddi-dâl a gedwir gennym cyn pen 5 niwrnod gwaith ar ôl derbyn cais, neu fe fyddwn yn rhoi manylion am sut i gael y cyfryw wybodaeth.	Cyfran y ceisiadau am wybodaeth gyhoeddedig ddi-dâl a gedwir gennym, wedi'u diwallu cyn pen 5 niwrnod gwaith.	Mae'r wybodaeth ddi-dâl y mae Swyddfa Cymru yn ei chyhoeddi ar gael ar ein gwefan. Ymhlith y deunyddiau gwybodaeth sydd ar gael mae datganiadau i'r wasg, areithiau ac adroddiadau blaenorol yr adran. Hefyd, mae gennym gynllun cyhoeddiadau sy'n nodi manylion mathau ychwanegol o wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd.
Byddwn yn delio ag unrhyw geisiadau am wybodaeth arall yn unol â Chod Ymarfer y Llywodraeth ar gael Gwybodaeth oddi wrth y Llywodraeth. Bydd y wybodaeth fel arfer yn cael ei hanfon cyn pen 20 diwrnod gwaith ar ôl derbyn cais.	Cyfran y ceisiadau am wybodaeth arall wedi'u diwallu cyn pen 20 diwrnod gwaith. Fe dderbyniodd Swyddfa Cymru 2 gais yn ystod y cyfnod hwn.	100%
Byddwn yn sicrhau bod cyfrifon yn cael eu talu yn brydlon. Lle mae contract, byddwn yn talu yn unol â'r amserlen berthnasol. Fel arall, byddwn yn talu cyfrifon cyn pen 30 diwrnod ar ôl derbyn anfoneb ddilys.	Canran yr anfonebau sy'n cael eu talu o fewn yr amser targed.	98%
Byddwn yn sefydlu gweithdrefn gwynion ffurfiol a byddwn yn ymchwilio i unrhyw gwyn ac ymateb iddi cyn pen 10 diwrnod.	Canran y cwynion yr ymdriniwyd â hwy cyn pen 10 diwrnod.	Mae modd gweld gweithdrefn gwynion Swyddfa Cymru ar wefan yr adran yn: www.walesoffice.gov.uk Nid yw Swyddfa Cymru wedi derbyn unrhyw gwynion ffurfiol yn ystod y cyfnod hwn.



Y Fframwaith Datganoli

Pennod 3

3.1 Memorandwm Dealltwriaeth a chytundebau cyffredinol

Manylir ar sail y berthynas rhwng y Llywodraeth a'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn y Memorandwm Dealltwriaeth rhwng y Llywodraeth a'r gweinyddiaethau datganoledig (Cm 5240 dyddiedig Rhagfyr 2001). Ynghyd â hyn, ceir pedwar cytundeb cyffredinol ar:

- ymdrin â busnes yr UE;
- cysylltiadau rhwngwladol;
- cymorth ariannol i ddiwydiant; ac
- ystadegau.

Mae'r dogfennau hyn yn gosod y fframwaith y bydd y Llywodraeth a'r gweinyddiaethau datganoledig yn cynnal eu busnes o'i fewn, ac mae'r Llywodraeth a'r gweinyddiaethau datganoledig wedi cytuno arnynt. Maent yn cwmpasu'r meysydd lle y byddai'n gall mabwysiadu dull cyffredin o weithio ymhlith yr holl weinyddiaethau, a'u nod cyffredinol yw hybu cysylltiadau da rhwng y gweinyddiaethau. Nid ydynt yn ddogfennau â grym cyfreithiol, ond disgwylir y bydd pob carfan yn cadw at yr ysbryd a'r llythyren er hynny.

3.2 Cydbwyllgor Gweinidogion

Roedd y Memorandwm Dealltwriaeth hefyd yn darparu ar gyfer sefydlu Cydbwyllgor Gweinidogion – fforwm ymgynghori i Weinidogion Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig. Caiff y Cydbwyllgor gyfarfod ar amryw ffurfiau swyddogaethol, gan ddibynnu ar y mater(ion) i'w drafod/i'w trafod. Nid sefydliad sy'n gwneud penderfyniadau mo'r Cydbwyllgor – rhaid i'r Llywodraeth wneud penderfyniadau terfynol ar swyddogaethau y mae wedi'u cadw, ac mae'n rhaid i'r gweinyddiaethau datganoledig benderfynu ar y swyddogaethau sydd wedi'u trosglwyddo. Er hynny, y mae disgwyl eglur y bydd y gweinyddiaethau sy'n cyfrannu yn cefnogi safbwynt y Cydbwyllgor. Bydd Gweinidogion Swyddfa Cymru yn mynychu holl gyfarfodydd y Cydbwyllgor.

3.3 Concordatiau

Yn ogystal, mae'r Cynulliad Cenedlaethol ac adrannau unigol y DU, gan gynnwys Swyddfa Cymru, wedi cytuno ar goncordatiau.

Mae'r concordatiau hyn yn gosod y fframwaith ar gyfer cyswllt rhwng y Cynulliad Cenedlaethol ac adrannau unigol Whitehall ar faterion sydd o ddiddordeb i'r naill garfan a'r llall. Mae'r Memorandwm Dealltwriaeth a'r amryw goncordatiau, gyda'i gilydd, yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer cyfathrebu a chydweithio rhwng y Llywodraeth a gweinyddiaeth ddatganoledig Cymru.

Gellir gweld concordat Swyddfa Cymru yn: www.walesoffice.gov.uk a gellir gweld yr holl goncordatiaau y cytunwyd arnynt hyd yma â'r Cynulliad Cenedlaethol ar wefan y Cynulliad, sef: www.wales.gov.uk

3.4 Rôl yr Ysgrifennydd Gwladol o ran hybu'r setliad

Ysgrifennydd Gwladol Cymru sy'n gyfrifol, o fewn y llywodraeth, am hybu'r setliad datganoli, am sicrhau cysylltiadau gwaith effeithiol a chysylltiadau da rhwng y Llywodraeth a'r Cynulliad, ac am helpu i ddatrys unrhyw anghydfod a allai godi. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn parhau i sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu cynrychioli a'u hystyried yn briodol o fewn y Llywodraeth.

Gwariant y Llywodraeth yng Nghymru

Pennod 4

4.1 Ariannu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Disgrifir y trefniadau ar gyfer y berthynas ariannol rhwng y Llywodraeth a Chynulliad Cenedlaethol Cymru ym mhedwerydd argraffiad *Statement of Funding Policy* a gyhoeddwyd fis Gorffennaf 2004 gan y Trysorlys. Ar y cyfan, mae'r trefniadau yn parhau â'r confensiynau sydd wedi'u hen sefydlu ar drefnu cyllid Cymru (ynghyd â'r Alban a Gogledd Iwerddon) cyn datganoli.

Y Trysorlys sy'n gyfrifol o hyd am lunio polisi cyllidol, a pholisi macroeconomaidd, a dyrannu gwariant cyhoeddus ar draws y Deyrnas Unedig. O ganlyniad, bydd cyllideb y Cynulliad yn dal i gael ei phennu o fewn fframwaith rheoli gwariant cyhoeddus y Deyrnas Unedig. Er hynny, ar ôl i gyllidebau gwariant cyhoeddus cyffredinol gael eu pennu, mae gan y Cynulliad ryddid i wneud ei benderfyniadau ei hun, o fewn y cyfanswm cyffredinol, ar y rhaglenni y mae'n gyfrifol amdanynt.

Fel arfer, penderfynir faint o arian y bydd y Llywodraeth yn ei roi i gyllideb y Cynulliad o fewn adolygiadau gwariant. Yn gyffredinol, bydd newidiadau yn narpariaeth gyllidebol y gweinyddiaethau datganoledig yn cael eu cysylltu â newidiadau yn y gwariant a gynllunnir ar wasanaethau cyhoeddus cymharol gan Adrannau eraill. Yn gyffredinol, caiff y cyswllt hwn ei wneud drwy gyfrwng fformwla a seilir ar boblogaeth (fformwla "Barnett"). Bydd y Senedd yn dyfarnu'r ddarpariaeth angenrheidiol i'r Ysgrifennydd Gwladol. Bydd yn rhoi arian i'r Cynulliad o'r cyllid a ddarperir gan y Senedd, gan roi cymaint ag y gwel yn dda, fel y disgrifir yn Neddf Llywodraeth Cymru 1998. Telir costau Swyddfa Cymru hefyd o'r arian a ddarperir gan y Senedd.

Daeth Adolygiad Gwariant 2004 i ben fis Gorffennaf 2004, a darparodd hwn adnoddau ychwanegol sylweddol i Gymru. Yn 2007-08, fe fydd cyfanswm y nawdd a fydd yn mynd trwy Swyddfa Cymru at Gynulliad Cenedlaethol Cymru £2.5 biliwn yn uwch nag yn 2004-05, sy'n cynrychioli cynnydd blynyddol gwirioneddol o dros bedwar y cant y flwyddyn ar gyfartaledd, am bob blwyddyn o'r presennol i 2007-08.

Un eithriad i ddull Barnett yw'r rhaglen Cronfeydd Strwythurol lle roedd symiau ychwanegol ar gael, y tu allan i Barnett. Sicrhawyd bod £555 miliwn ar gael ar gyfer Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd dros gyfnod yr adolygiad gwariant hwn – £63 miliwn yn fwy nag oedd ar gael dros gyfnod yr adolygiad gwariant diwethaf – er mwyn sicrhau bod modd rhoi rhaglenni ar waith yn llawn yng Nghymru.

4.2 Cyfanswm Gwariant Cyhoeddus y gellid dweud ei fod wedi'i wario yng Nghymru

Yn 2003-04, £20.277 biliwn oedd y gwariant cyhoeddus y gellid dweud ei fod wedi'i wario er lles Cymru, sef £6,901 fesul pen y boblogaeth a thua 12 y cant yn uwch na chyfartaledd y DU⁽¹⁾. Dyma rai o'r cymariaethau o ran gwasanaethau allweddol:

Cyfanswm Gwariant a Reolir, Gwariant y Gellid Dweud ei Fod Wedi'i Wario y Pen 2003-04 (£)		
	Cymru	Y DU
Iechyd ⁽²⁾	1,345	1,255
Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd, Bwyd a Choedwigaeth ⁽²⁾	106	87
Amddiffyn cymdeithasol ⁽²⁾	2,921	2,550

(1) Yn seiliedig ar y "Territorial Analysis of Public Expenditure", a gyhoeddwyd ym Mhennod 8 *Public Expenditure Statistical Analyses* (PESA) 2005 (Cm 6521).

(2) Newidiwyd diffiniad 2003 o Gyfanswm Gwariant ar Wasanaethau (CGW) i sicrhau bod diffiniadau swyddogaethau yn fwy unol â'r rheiny yn Nosbarthiad y Cenhedloedd Unedig o Swyddogaethau Llywodraeth (COFOG). I gael mwy o wybodaeth, gwelwch gyflwyniad a Phennod 3 PESA 2005 (cm6521).

4.3 Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan

Mae Swyddfa Cymru a'r Cynulliad yn rhan o brosiect Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan y mae Trysorlys EM yn ei arwain.

4.4 Cyllideb y Cynulliad

Yn unol ag egwyddorion datganoli, y Cynulliad sydd i benderfynu sut y mae'n defnyddio'r adnoddau sydd ar gael iddo, gan gynnwys rhwng costau rhedeg a gwariant ar raglenni. Yn sgîl adolygiad Gershon o effeithlonrwydd y sector cyhoeddus ar ran y Llywodraeth ganolog, fe gynhyrchodd Llywodraeth Cynulliad Cymru "Creu'r Cysylltiadau – Gwell Gwasanaethau i Gymru". Mae hwn yn manylu ar ymrwymiad y Cynulliad i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru a gwella effeithlonrwydd y sector cyhoeddus Cymru, ac mae'n cynnwys ystyriaeth ehangach i ddiwygio gwasanaeth cyhoeddus.

Gellir gweld cyllideb y Cynulliad ar ei wefan yn www.cymru.gov.uk.

4.5 Cyllideb 2005

Ers Adolygiad Gwariant 2004, sicrhawyd bod adnoddau ychwanegol ar gael yn yr Adroddiadau Cyn y Gyllideb ac yn y Cyllidebau. Cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys ei Gyllideb ar 16 Mawrth 2005, gan roi £155 miliwn ychwanegol ar gyfer Cymru dros y pum mlynedd nesaf o ganlyniad i arian cynyddol yn Lloegr. Gweinidogion y Cynulliad fydd yn penderfynu sut y bydd yr arian hwn yn cael ei wario yng Nghymru. Mae copiâu o fanylion llawn y Gyllideb ar gael ar wefan y Trysorlys ar www.hm-treasury.gov.uk.

4.6 Gwariant Swyddfa Cymru

Mae gwariant Swyddfa Cymru ei hun yn rhan o gyllideb Cymru. Ar wahân i'r grant y mae'n ei dalu i'r Cynulliad, dyma yw cynnwys gwariant yr Adran:

- ei chostau cyffredinol ei hun;
- treuliau'r Arglwyddi Rhaglaw;
- Tribiwnlys Cam-drin Plant Gogledd Cymru.

4.7 Newidiadau i Derfyn Gwariant Adrannol Cymru ar gyfer 2003-04 i 2007-08 ers Adolygiad Gwariant 2004

Mae'r tabl drosodd yn cysoni Terfyn Gwariant Adrannol cyfredol Cymru â'r waelodlin o Adolygiad Gwariant 2004.

Newidiadau i Derfyn Gwariant Adrannol Cymru ar gyfer 2003-04 i 2007-08 ers Adolygiad Gwariant 2004 ⁽¹⁾					
	2003-04 £m Alldro	2004-05 £m Amcangyfrif o'r alldro	2005-06 £m Cynlluniau	2006-07 £m Cynlluniau	2007-08 £m Cynlluniau
Sefyllfa pan gafodd PESA ei gyhoeddi yn 2004 (Tabl 1.2) yn glir o ddibrisiant ac amhariadau	10,498	11,096	11,931	0	0
Dibrisiant ac amhariadau	195	209	217	0	0
Amcangyfrif o'r alldro a'r alldro terfynol 2003-04	-165	0	0	0	0
Eitemau wedi'u heithrio o Waelodlin AG 2004	0	-112	-106	0	0
Gwaelodlin ar gyfer AG 2004	10,528	11,193	12,042	12,042	12,042
Ychwanegiadau AG 2004	0	0	0	978	1,776
Eitemau wedi'u heithrio o Waelodlin AG 2004	0	112	106	0	0
Trosglwyddo Cefnogi Pobl o Grant a Reolir yn Flynyddol i TGA	118	121	110	106	106
Datganoli gwasanaethau Tân ac Achub o Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog	9	8	4	2	4
Gwasanaeth Cyngori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd o DfES	6	6	6	6	6
Amcangyfrif o alldro	0	-153	0	0	0
Alldro diwygiedig	-19	0	0	0	0
Manteisio ar Hyblygrwydd Ddiwedd y Flwyddyn	0	286	0	0	0
Gostyngiad TGA yng ngweinyddiaeth Budd-dal Tai/Budd-dal Treth Cyngor	0	-24	-24	-24	-24
Dechrau Da	0	0	1	1	1
Treth tirlenwi	0	0	5	0	0
Mesurau Adroddiad Cyn y Gyllideb 2004	0	0	7	16	15
Amddiffyn sifil	0	0	1	0	0
Cyllideb 2005	0	0	3	40	50
Trosglwyddiadau Rhwng Adrannau	0	5	-18	-9	-9
<i>Is gyfanswm</i>	114	361	201	1,116	1,925
TGA Cyfalaf ynghyd â TGA Adnoddau	10,642	11,554	12,243	13,158	13,967
Llai dibrisiant ac amhariadau	-96	-297	-216	-256	-259
Sefyllfa pan gafodd PESA ei gyhoeddi yn 2005 (Tabl 1.11) yn glir o ddibrisiant ac amhariadau	10,545	11,257	12,026	12,902	13,708

(1) Mae'n bosibl na fydd y cyfansymiau'n gyson oherwydd talgrynnu.

Sicrhau Llywodraeth Effeithlon a Modern

Pennod 5

5.1 Defnyddio Adnoddau yn Effeithlon

Crëwyd yr Adran ar 1 Gorffennaf 1999 yn sgîl datganoli yng Nghymru. Fis Mehefin 2003, fel rhan o agenda'r Llywodraeth ar gyfer sicrhau gwasanaethau cyhoeddus effeithlon a modern, fe gyhoeddodd y Prif Weinidog newidiadau i beirianwaith y llywodraeth ac, fel rhan o hyn, daeth Swyddfa Cymru yn endid ar wahân o fewn yr Adran Materion Cyfansoddiadol at ddibenion cyflogau a dognau, ond mae'n atebol i Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac yn ei gefnogi yn achos yr holl agweddau eraill ar waith y Swyddfa. Nawr fod Swyddfa Cymru yn rhan o Adran fwy, gyda gwasanaethau cefnogi cwbl integredig, rydym yn cael budd o'r buddsoddiad a'r gwelliannau i gyflawni effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y mae gan Adran fwy i'w cynnig. Dros y cyfnod 2005-06 i 2007-08 ni fydd unrhyw gynnydd yng nghyllideb Swyddfa Cymru mewn enw, ac mae Swyddfa Cymru wedi ymrwymo i wneud yr arbedion angenrheidiol trwy wella effeithlonrwydd er mwyn parhau i gyflawni ei nodau a'i hamcanion o fewn y gyllideb hon.

5.2 Moderneiddio'r Llywodraeth a Diwygio'r Gwasanaeth Sifil

Mae newid cyfansoddiadol wedi rhoi Cymru ar y blaen yn y gwaith o foderneiddio'r Llywodraeth. Mae datganoli grymoedd a chyfrifoldebau helaeth i'r Cynulliad Cenedlaethol yn rhan hanfodol o raglen arloesol y Llywodraeth o ddiwygio'r cyfansoddiad.

5.3 Llywodraeth yr Oes Wybodaeth

Mae nifer fawr o fentrau a datblygiadau yn digwydd o dan y teitl "Llywodraeth yr Oes Wybodaeth", i gynnal busnes y Llywodraeth a darparu gwasanaethau'r Llywodraeth yn electronig. Mae Swyddfa Cymru yn defnyddio prosiect rheoli cofnodion electronig cyfredol yr Adran Materion Cyfansoddiadol fel rhan o'r fenter hon i reoli gwybodaeth yn effeithiol er mwyn gwella cynhyrchiant ac ansawdd y gwaith. Fe fydd hyn hefyd yn ein galluogi i gydymffurfio'n effeithiol ag ymrwymadau statudol, gan gynnwys y rheiny dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, a ddaeth i rym fis Ionawr 2005.

Mae cyfryngau cyfoes yn cael eu defnyddio fwyfwy, megis rhwydweithiau cyfrifiaduron, a'r e-bost, er mwyn cyfathrebu a chyfnwid gwybodaeth rhwng adrannau, a chydâ Thŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi. Mae pob aelod o'r staff yn cael defnyddio'r Rhyngrwyd ac mae gan yr adran ei gwefan ei hun, lle mae modd i'r cyhoedd gysylltu â ni drwy e-bost (yn: wales.office@walesoffice.gsi.gov.uk).

5.4 Penodiadau Cyhoeddus

Nid yw Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn gyfrifol ar ei ben ei hun am wneud penodiadau cyhoeddus. Os bydd yn penodi ar y cyd â phobl eraill, mae'r Adran yn dilyn gweithdrefnau sy'n sicrhau mai'r ymgeiswyr â'r cymwysterau mwyaf addas yn unig a gaiff eu penodi. Gwneir penodiadau cyhoeddus yn unol â chanllawiau'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus ar benodi i gyrff cyhoeddus, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 1998.

5.5 Yr Iaith Gymraeg

Mae Swyddfa Cymru wedi ymrwmo i drin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Yn unol â'r Cynllun Iaith Gymraeg a roddwyd ar waith ar 28 Mai 2004, mae cyhoeddiadau a hysbysiadau i'r wasg ar gael yn y ddwy iaith. Fe fydd Swyddfa Cymru yn anfon ateb yn Gymraeg at unrhyw un sy'n ysgrifennu neu'n anfon e-bost yn Gymraeg, a bydd galwadau ffôn Cymraeg yn cael eu trosglwyddo i rywun sy'n siarad Cymraeg, lle bynnag y bydd hynny'n bosibl.

5.6 Recriwtio Staff Swyddfa Cymru

Polisi Swyddfa Cymru yw recriwtio staff yn ôl Gorchymyn y Cyfrin Gyngor ar y Gwasanaeth Sifil 1995. Penodir pob unigolyn yn ôl ei deilyngdod ar sail cystadleuaeth deg ac agored, heblaw am achosion lle caniateir eithriadau yn ôl Erthyglau 6 a 7 y Gorchymyn. I'r perwyl hwn:

- rhoddir yr un cyfle teg a rhesymol i'r darpar ymgeiswyr gael gwybodaeth ddigonol am y swydd, ei gofynion a'r broses dethol;
- ystyrir ceisiadau'r ymgeiswyr yn yr un modd, yn ôl eu teilyngdod, ar bob cam o'r broses dethol;
- dewisir meini prawf perthnasol a'u defnyddio yn gyson i bob ymgeisydd wrth ddethol;
- llunnir y technegau dethol i fod yn ddibynadwy ac osgoi rhagfarn;
- dilynir polisiau cyfle cyfartal gydol y broses recriwtio.

5.7 Nifer y Staff

Nifer y Staff								
Blynyddoedd Staff – swyddi sy'n cyfateb i rai amser llawn		gwir ffigyrau 2000-01	gwir ffigyrau 2001-02	gwir ffigyrau 2002-03	gwir ffigyrau 2003-04	gwir ffigyrau 2004-05	cynlluniau 2005-06	cynlluniau 2006-07
Staff Parhaol	Polisi ⁽¹⁾	29	30	36	34	40	46	46
	Gweithredol ⁽¹⁾	10	10	10	10	10	14	14
Staff achlysurol		4	1	1	1	2	1	1
Goramser		1	1	1	1	2	1	1
CYFANSWM		44	42	48	46	54	62	62

(1) Mae elfen y staff parhaol uchod wedi'i rhannu er mwyn gwahaniaethu rhwng staff sy'n gwneud gwaith polisi, a chefnogaeth weithredol.

5.8 Polisiau Cyfle Cyfartal Swyddfa Cymru Amrywiaeth

Mae tua thri ar hugain y cant o staff yr Adran o dras Lleiafrifoedd Ethnig.

Menywod

Ceir cynrychiolaeth dda o fenywod yn Swyddfa Cymru drwyddi draw; maent yn cyfrif am 53% o gyfanswm y staff. Mae'r tabl isod yn dangos nifer y menywod mewn swyddi o bob gradd ar 31ain Mawrth 2005.

Menywod mewn swyddi o bob gradd yn Swyddfa Cymru

Gradd	Staff mewn swyddi	Y staff sy'n fenywod
Uwch Wasanaeth Sifil	1	1
Gradd 6	5	0
Gradd 7	3	1
SEO	3	2
HEO	14	9
EO	15	8
AO	8	6
AA	3	1

Pobl anabl

Ar hyn o bryd, mae Swyddfa Cymru yn cyflogi un aelod o staff ag anabledd. Bellach, mae yna ramp ar du blaen yr adeilad sy'n caniatáu i staff ac ymwelwyr mewn cadair olwyn ddod i mewn i'r adeilad heb gymorth. Bwriedir gwneud mwy o newidiadau dros y tair blynedd nesaf i sicrhau bod Tŷ Gwydyr yn cydymffurfio â Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995. Bwriedir dechrau gwaith ar y lifft yn ystod Egwyl Haf 2005.

Adeilad modern yw Discovery House, ar osod i staff Swyddfa Cymru sy'n gweithio yng Nghaerdydd. Argymhellwyd comisiynu gwaith pellach i sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n llawn â Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995.



Atodiadau

- Atodiad 1:** Terfyn Gwariant Adrannol – Cymru
- Atodiad 2:** Grant Sy'n Daladwy i Gynulliad Cenedlaethol Cymru 2003-04: Darpariaeth ac Alldro
- Atodiad 3:** Grant Sy'n Daladwy i Gynulliad Cenedlaethol Cymru 2004-05: Darpariaeth Wreiddiol a Therfynol
- Atodiad 4:** Cysoni'r grant sy'n daladwy i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda Chyfanswm y Gwariant a Reolir ar gyfer Cymru 2005-06
- Atodiad 5:** Cyflogau Uwch Weision Sifil

Atodiad 1: Terfyn Gwariant Adrannol – Cymru ⁽¹⁾⁽²⁾									£000
	1999-00	2000-01	2001-02	2002-03	2003-04	2004-05	2005-06	2006-07	2007-08
	alldro ⁽³⁾ £'000	alldro £'000	alldro £'000	alldro £'000	alldro £'000	amcangyfrif o alldro £'000	darpariaeth £'000	darpariaeth £'000	darpariaeth £'000
Adnoddau									
Costau Gweinyddol Swyddfa Cymru	1,403	2,638	2,463	3,037	2,949	3,776	3,760	3,760	3,760
Swyddfa Cymru – arall ⁽⁴⁾	65	65	75	95	93	153	153	153	153
Cyfanswm Adnoddau	1,468	2,703	2,538	3,132	3,042	3,929	3,913	3,913	3,913
Cyfalaf									
Swyddfa Cymru	8	299	18	34	138	766	766	766	766
IGA Swyddfa Cymru⁽²⁾⁽⁵⁾⁽⁶⁾	1,454	2,980	2,536	3,129	3,145	4,660	4,644	4,644	4,644
Adnoddau CCC	6,787,220	7,232,392	8,247,917	9,144,680	9,834,012	10,689,392	11,307,311	12,059,297	12,765,410
Cyfalaf CCC	591,323	558,879	544,416	683,570	807,119	864,998	934,976	1,098,784	1,201,836
TGA CCC ⁽⁶⁾	7,348,143	7,770,879	8,600,825	9,590,595	10,545,478	11,257,014	12,026,026	12,901,560	13,707,872
Cyfanswm Bloc Cymru⁽⁵⁾⁽⁶⁾	7,349,597	7,773,859	8,603,361	9,593,724	10,548,623	11,261,674	12,030,670	12,906,204	13,712,516

(1) Mae'n bosibl na fydd y cyfansymiau'n gyson oherwydd talgrynnu.

(2) Gwariant wedi'i Ddyfarnu ar sail Amcangyfrif AMC, Cais am Adnoddau 3. I Gefnogi'r Ysgrifennydd Gwladol wrth iddo fynd ati i gynrychioli Cymru yn Llywodraeth y DU, cynrychioli Llywodraeth y DU yng Nghymru, a sicrhau bod y setliad datganoli'n gweithio yn hwylus yng Nghymru.

(3) Gwariant Rhan o'r Flwyddyn: Sefydlwyd Swyddfa Cymru ar ei ffurf bresennol ar 1 Gorffennaf 1999.

(4) Gan gynnwys dibrisiant.

(5) Adnoddau + cyfalaf – dibrisiant.

(6) Yn ôl confensiwn, mynegir cyllidebau Terfynau Gwariant Adrannol fel gwariant adnoddau a gwariant cyfalaf llai dibrisiant. Felly, ni fydd cyfanswm y rhifau ar gyfer adnoddau a chyfalaf yn y tabl hwn yn cyfateb i'r Terfyn Gwariant Adrannol: dibrisiant yw'r gwahaniaeth.

Atodiad 2: Grant sy'n daladwy i Gynulliad Cenedlaethol Cymru 2003-04: Darpariaeth ac Alldro⁽¹⁾

£ miliwn

	Darpariaeth Wreiddiol	Darpariaeth Derfynol	Alldro
Gwariant yn Nosbarth Terfyn Gwariant Adranno! ⁽²⁾	10,603	10,792	10,509
Gwariant yn Nosbarth Grant a Reolir yn Flynyddol	632	837	859
Cyfanswm Gwariant a Reolir	11,235	11,629	11,368
<i>yn cynnwys y canlynol heb eu dyfarnu:</i> Cymeradwyaethau Credyd ALI	273	261	261
Arall Heb ei Ddyfarnu	6	6	6
Cymwysiadau Cyllidebau Adnoddau			
Amseru	41	42	42
Dibrisiant	203	203	203
Cost Cyfalaf	335	335	377
Arall	30	52	52
<i>Cyfanswm Cymwysiadau Cyllidebau Adnoddau</i>	<i>609</i>	<i>632</i>	<i>674</i>
Cyfanswm CGR heb ei ddyfarnu	889	899	941
Cyfanswm CGR wedi'i ddyfarnu	10,346	10,730	10,427
Derbyniadau wedi'u Dyfarnu			
Derbyniadau oddi wrth yr UE	-186	-213	-213
Cyfraniadau o'r Gronfa Yswiriant Gwladol	-694	-665	-665
Derbyniadau oddi wrth yr Asiantaeth Taliadau Gwledig	-163	-210	-211
Taliadau eraill Wedi'u Dyfarnu nad ydynt yn CGR	0	50	-35
<i>Is gyfanswm</i>	<i>-1,043</i>	<i>-1,038</i>	<i>-1,124</i>
Newidiadau yn yr arian parod sy'n weddill gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru	0	0	
Cyfanswm Grant y Cynulliad	9,303	9,691	9,303

(1) Mae'n bosibl na fydd y cyfansymiau'n gyson oherwydd talgrynnu.

(2) TGA adnoddau a chyfalaf gan gynnwys dibrisiant.

Atodiad 3: Grant sy'n daladwy i Gynulliad Cenedlaethol Cymru 2004-05: Darpariaeth Wreiddiol a Therfynol⁽¹⁾

£ miliwn

	Darpariaeth Wreiddiol	Darpariaeth Derfynol	Amcangyfrif o'r Aildro
Gwariant yn Nosbarth Terfyn Gwariant Adranno! ⁽²⁾	11,305	11,701	11,554
Gwariant yn Nosbarth Grant a Reolir yn Flynyddol	485	445	439
Cyfanswm Gwariant a Reolir	11,790	12,146	11,994
<i>yn cynnwys y canlynol heb eu dyfarnu:</i> Cymeradwyaethau Credyd ALI	167	167	163
Arall Heb ei Ddyfarnu	5	6	6
Cymwysiadau Cyllidebau Adnoddau			
Amseru	40	40	40
Dibrisiant	167	210	256
Cost Cyfalaf	338	395	388
Arall	31	95	31
<i>Cyfanswm Cymwysiadau Cyllidebau Adnoddau</i>	<i>576</i>	<i>740</i>	<i>716</i>
Cyfanswm CGR heb ei ddyfarnu	749	914	886
Cyfanswm CGR wedi'i ddyfarnu	11,040	11,233	11,108
Derbyniadau wedi'u Dyfarnu			
Derbyniadau oddi wrth yr UE	-136	-20	-238
Cyfraniadau o'r Gronfa Yswiriant Gwladol	-782	-788	-788
Derbyniadau oddi wrth yr Asiantaeth Taliadau Gwledig	-177	-195	-195
Derbyniadau eraill Wedi'u Dyfarnu nad ydynt yn CGR	0	-3	
Taliadau eraill Wedi'u Dyfarnu nad ydynt yn CGR	0	3	
<i>Is gyfanswm</i>	<i>-1,095</i>	<i>-1,003</i>	<i>-1,222</i>
Cyfanswm Grant y Cynulliad	9,845	10,230	9,886

(1) Mae'n bosibl na fydd y cyfansymiau'n gyson oherwydd talgrynnu.

(2) TGA adnoddau a chyfalaf gan gynnwys dibrisiant.

Atodiad 4: Cysoni'r grant sy'n daladwy i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda Chyfanswm y Gwariant a Reolir ar gyfer Cymru 2005-06⁽¹⁾		£000
Gwariant yn Nosbarth Terfyn Gwariant Adrannol ⁽²⁾		12,242
Gwariant yn Nosbarth Grant a Reolir yn Flynyddol		500
Cyfanswm Gwariant a Reolir		12,743
Llai: Gwariant Heb ei Ddyfarnu Cymeradwyaethau Credyd ALI Arall Heb ei Ddyfarnu		163 6
Cymwysiadau Cyllidebau Adnoddau Amseru Dibrisiant Cost Cyfalaf Arall		40 175 422 42
Cyfanswm Cymwysiadau Cyllidebau Adnoddau		679
Cyfanswm CGR Heb ei Ddyfarnu		849
Cyfanswm CGR Wedi'i Ddyfarnu		11,894
Derbyniadau wedi'u Dyfarnu Derbyniadau oddi wrth yr UE Cyfraniadau o'r Gronfa Yswiriant Gwladol Derbyniadau oddi wrth yr Asiantaeth Taliadau Gwledig		-234 -822 -220
Cyfanswm		-1,276
Cyfanswm Grant y Cynulliad		10,618

(1) Mae'n bosibl na fydd y cyfansymiau'n gyson oherwydd talgrynnu.

(2) TGA adnoddau a chyfalaf gan gynnwys dibrisiant.

Atodiad 5: Cyflogau Uwch Weision Sifil

Yn unol ag ymrwymiad y Llywodraeth yn y Papur Gwyn *Continuity and Change*, mae Swyddfa Cymru yn cyhoeddi manylion cyflogau uwch weision sifil yn Swyddfa Cymru.

Un aelod yn unig sydd gan yr Adran ar Band Tâl 2 graddfa Uwch Weision Sifil yn yr ystod cyflog £75,607 – £159,659.